

Mae gofal cymdeithasol yn bwysig

Dilyn y dystiolaeth: materion allweddol ar gyfer gofal cymdeithasol

Mae gofal cymdeithasol yn bwysig i bob un ohonom.

Mae'n effeithio ar bob un ohonom rywbryd yn ein bywydau. Mae'n bwysig bod pobl mewn cymunedau ym mhob rhan o Gymru yn gallu dibynnu ar ofal cymdeithasol o safon i'w helpu i fyw'r bywydau sy'n bwysig iddyn nhw. Rydym wedi nodi isod y materion allweddol y mae angen mynd i'r afael â nhw yng Nghymru er mwyn:

- Llesiant cyffredinol pobl Cymru
- y rhai y mae angen gofal a chymorth arnynt yn awr neu yn y dyfodol
- yr aelodau hynny o'r teulu a ffrindiau a allai fod yn helpu i ofalu amdanynt.

Gellir gweld maint yr her i ofal cymdeithasol yng Nghymru o'r ystadegau isod, a dynnwyd o [Gofal a Chymorth yng Nghymru: Adroddiad cenedlaethol asesu'r boblogaeth](#), a gyhoeddwyd yn 2017/18:

- Erbyn 2041, disgwylir i nifer y bobl dros 65 oed gynyddu bron 37 y cant
- Disgwylir i bobl dros 85 oed gynyddu 119 y cant erbyn 2035
- Mae gan 26 y cant o bobl yng Nghymru salwch neu anabledd hirdymor cyfyngol
- Mae un oedolyn o bob pedwar yn profi problemau iechyd meddwl neu salwch rywbryd yn eu bywydau
- Dywed 17 y cant o oedolion eu bod yn teimlo'n unig
- Disgwylir i nifer y gofalwyr dros 85 oed ddyblu yn ystod yr 20 mlynedd nesaf.

Mae effaith bosibl hefyd ar bobl iau. Roedd 6,845 o blant yn derbyn gofal gan awdurdodau lleol yng Nghymru y llynedd ([StatsCymru](#)). Mae effaith hirdymor COVID-19 ar yr economi yn debygol o gael effaith niweidiol ar fywyd teuluol, gan greu mwy o alw am ofal a chymorth gan wasanaethau gofal cymdeithasol.

Mae dystiolaeth yn awgrymu y dylai Cymru ganolbwyntio ar:

- **Setliad cyllido cynaliadwy**
- **Cydnabyddiaeth a thâl teg i weithwyr gofal cymdeithasol**
- **Cymorth busnes i fusnesau gofal cymdeithasol bach a chanolig**
- **Trawsnewid digidol a modelau gofal a chymorth newydd**
- **Newid sylfaenol yn y ffordd y caiff y cynnig gofal plant ei gyllido**
- **Bwrw ymlaen â strategaeth 10 mlynedd y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol.**

Setliad cyllido cynaliadwy

Beth yw'r problem?

Gyda'r galw cynyddol am ofal a chymorth, mae'r model cyllido presennol yn golygu bod gwasanaethau eisoes dan straen ddifrifol hyd yn oed cyn y pwysau ariannol cynyddol a achosir gan COVID-19.

Mae hyn yn golygu y bydd cynnal y lefelau gwasanaeth presennol yn anfforddiadwy ac anghynaliadwy cyn bo hir. [Roedd asesiad 2016 y Sefydliad Iechyd](#) o'r anghenion cyllido ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru hyd at 2030/31 yn rhagweld y byddai'r angen i wariant net ar ofal cymdeithasol i oedolion yn unig gynyddu 4.1 y cant y flwyddyn mewn termau real, sy'n cyfateb yn fras i £65 miliwn y flwyddyn ar gyfartaledd.

Nid oes amheuaeth o'r dystiolaeth bod angen dull newydd o gyllido gofal cymdeithasol yng Nghymru naill ai o gyllidebau presennol neu o ffynonellau cyllid newydd.

Mae cyflymdra'r newid demograffig yn golygu bod angen i hyn ddigwydd yn fuan os ydym am barhau i ddarparu gofal cymdeithasol o safon yng Nghymru i'r nifer cynyddol o bobl y mae angen cymorth arnynt.

Mae'r dystiolaeth yn dweud...

mae angen newid sylfaenol yn y ffordd y caiff gofal cymdeithasol ei flaenoriaethu a'i gyllido. Mae angen cytuno ar ateb radical a chynaliadwy a'i roi ar waith cyn gynted â phosibl, i ddod ag arian ychwanegol i'r system gofal cymdeithasol.

Cydnabyddiaeth a thâl teg i weithwyr gofal cymdeithasol

Beth yw'r problem?

Mae'r pandemig presennol wedi dangos, os oedd angen rhagor o dystiolaeth, pa mor hanfodol yw'r gweithlu gofal cymdeithasol i lesiant pobl o bob oed mewn cymunedau ledled Cymru.

Mae gweithwyr gofal cymdeithasol yn rhoi'r gofal a'r cymorth sydd eu hangen i alluogi pobl i fyw'r bywydau sy'n bwysig iddyn nhw. Mae eu cyfraniad hollbwysig hefyd yn helpu'r GIG i weithredu'n fwy effeithiol, gan fod ein gweithwyr gofal cymdeithasol yn helpu i gadw pobl yn ddiogel, gan sicrhau eu bod yn cael eu cyfeirio i'r ysbyty dim ond os oes gwir angen iddynt fod yno.

Yn ystod y pandemig, mae'r gweithwyr hyn wedi peryglu eu hunain i wneud yn siŵr bod y bobl maen nhw'n eu cefnogi yn cael eu cadw'n ddiogel. Adlewyrchir hyn yn y ffaith mai gofal cymdeithasol yw un o'r pum galwedigaeth sydd â'r [cyfraddau uchaf o farwolaethau sy'n gysylltiedig â'r coronafeirws yng Nghymru a Lloegr](#).

Ac eto, ar gyfartaledd, mae gweithwyr gofal cymdeithasol yn cael llawer llai o dâl na gweithwyr allweddol eraill. Ym mis Ebrill eleni, tynnodd [Resolution Foundation](#) sylw at y ffaith bod 56 y cant o weithwyr gofal rheng flaen yng Nghymru yn ennill llai

na'r cyflog byw gwirfoddol.

Mae sgiliau ac ymroddiad gweithwyr gofal cymdeithasol yn rhywbeth a gydnabyddir gan y cyhoedd yng Nghymru. Dangosodd Arolwg Omnibws Cymru a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2020 fod gan 46 y cant o'r cyhoedd farn uwch bryd hynny am weithwyr gofal cymdeithasol nag oedd ychydig fisoedd yn gynt. Teimlai mwy na 70 y cant o'r rhai a holwyd y dylai'r rheini sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol elwa o dâl ac amodau tebyg i weithwyr y GIG.

Rydyn ni bellach yn cofrestru'r rhan fwyaf o weithwyr gofal cymdeithasol, sy'n codi eu statws yng Nghymru. Os gallwn ddatblygu proffesiwn sy'n cael ei wobrwyo'n well, bydd hefyd yn helpu i ddenu mwy o bobl sydd â'r sgiliau a'r gwerthoedd priodol i swyddi gofal. Mae angen mwy o ofalwyr gwrywaidd a BAME arnom, yn ogystal â'r rheini sydd â sgiliau iaith Gymraeg, i adlewyrchu poblogaeth Cymru yn well.

Mae'r dystiolaeth yn dweud...

mae angen cydnabod gwerth pobl sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol mewn ffordd ystyrlon drwy sicrhau bod y cyflog byw gwirfoddol o leiaf yn cael ei dalu i bob gweithiwr a'u bod yn cael yr un telerau ac amodau â swyddi tebyg yn y GIG. Heb hyn, mae'r sector yn wynebu heriau mawr o ran recriwtio a chadw staff.

Cymorth busnes i fusnesau gofal cymdeithasol bach a chanolig

Beth yw'r problem?

Yn seiliedig ar ystadegau 2018, mae gofal cymdeithasol i oedolion yn cyfrannu £1.2bn yn uniongyrchol i'r economi yng Nghymru bob blwyddyn a £2.2bn drwyddi draw, ar ôl cynnwys cyflenwyr a'u gweithwyr.

Mae gofal cymdeithasol yn cyflogi 90,500 o bobl yng Nghymru, sy'n fwy na'r GIG, gan ei wneud yn seithfed cyfrannwr mwyaf economi Cymru. Mae'n cynnwys cannoedd o fusnesau bach a chanolig sy'n darparu swyddi lleol i bobl lleol ac sy'n cyfrannu'n sylweddol at gyfoeth cymunedau lleol, fel rhan o'r economi sylfaenol.

Mae'n bwysig bod y busnesau bach a chanolig hyn yn cael y cymorth busnes a'r gefnogaeth ariannol i ffynnu drwy gyngor, grantiau a mathau eraill o gyllid, megis cefnogi prentisiaethau a dysgu ar bob lefel.

Mae'r busnesau lleol hyn yn debygol o chwarae rhan hollbwysig yn helpu adferiad yr economi yng Nghymru, pan fydd y pandemig yn cilio. Os cânt gefnogaeth briodol, efallai y byddant yn gallu cyflogi pobl sy'n debygol o golli eu swyddi yn y sectorau manwerthu a hamdden a sectorau eraill, yn enwedig y rhai sy'n dioddef yn sgil y pandemig.

Gallai eu rôl fod yn arbennig o werthfawr mewn ardaloedd mwy difreintiedig yng Nghymru lle mae tlodi'n fwy cyffredin, o ystyried y cysylltiad rhwng amddifadedd a'r tebygolrwydd cynyddol y bydd angen gofal a chymorth ar bobl.

Mae'r dystiolaeth yn dweud...

mae gofal cymdeithasol wrth galon yr economi sylfaenol,

gan wneud cyfraniad sylweddol at ffyniant cymunedau lleol, a rhaid iddo fod yn elfen flaenllaw o bolisi'r dyfodol ar waith teg a phartneriaeth gymdeithasol mewn cyd-destun economaidd newydd.

Trawsnewid digidol a modelau gofal a chymorth newydd

Beth yw'r problem?

Mae'r pandemig wedi dangos bod yn rhaid i ni i gyd newid ein ffyrdd o weithio ac mae hynny cyn wired am y sector gofal cymdeithasol ag unrhyw fan. Mewn proffesiwn lle mae cyswllt dynol mor bwysig, mae'r pandemig wedi atgyfnerthu pwysigrwydd gallu gweithio a chyfathrebu mor effeithiol yn rhithiol ag a wneir wyneb yn wyneb.

Gallai mwy o ddefnydd o dechnoleg ddigidol olygu rhannu gwybodaeth yn well, monitro pobl agored i niwed o bell a rhoi mwy o gyfleoedd i unigolion sy'n derbyn gofal a chymorth i gadw mewn cysylltiad â theulu, ffrindiau ac ymarferwyr.

Hyd yn oed cyn COVID-19, rhoddodd ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol a oedd yn cymryd rhan yn ymgynghoriad strategaeth y gweithlu eu barn am yr hyn sydd ei angen fwyaf i fanteisio ar y cyfleoedd a gynigir gan dechnoleg ddigidol.

Fe ddywedon nhw fod angen gwell seilwaith mewn byd lle byddai technoleg ddigidol yn effeithio ar y rhan fwyaf o weithwyr a'r rheini sy'n derbyn gofal yn ystod y degawd nesaf. Fe ddywedon nhw hefyd fod angen gwella llythrennedd digidol ar draws y gweithlu cyfan.

Er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn, mae angen dull cydgysylltiedig o drawsnewid ar draws y sectorau iechyd, gofal cymdeithasol a sectorau cysylltiedig eraill, gydag atebion digidol a modelau gwasanaeth newydd yn ganolog i hynny.

Byddai angen i hyn roi ystyriaeth lawn i anghenion y sector gofal cymdeithasol a'r bobl y mae'n eu gwasanaethu, gan sicrhau bod digon o fuddsoddiad i ddarparu atebion cynaliadwy a'r hyfforddiant i fudiadau a'u pobl wneud y defnydd gorau ohonynt.

Mae'r dystiolaeth yn dweud...

mae angen buddsoddi mewn sgiliau digidol ac atebion newydd i helpu i drawsnewid profiadau pobl sy'n defnyddio gofal a chymorth, yn ogystal ag effeithlonrwydd a chynaliadwyedd y sefydliadau a'r gweithwyr proffesiynol sy'n eu cefnogi.

Newid sylfaenol yn y ffordd y caiff y cynnig gofal plant ei gyllido

Beth yw'r problem?

Mae'r sector gofal plant yn chwarae rhan hollbwysig yn natblygiad economaidd a chymdeithasol Cymru. Mae'n galluogi llawer o rieni i weithio, yn cefnogi twf economaidd ac yn lleihau tlodi ledled y wlad.

Gyda phatrymau gweithio rhieni'n datblygu'n gyson, bydd galw bob amser am ofal plant. Roedd y model cyllido

presennol ar gyfer y cynnig gofal plant eisoes wedi rhoi gwasanaethau dan straen hyd yn oed cyn y pwysau ariannol mwy a achosir gan COVID-19.

Gyda gofynion cymhareb y Safonau Gofynnol Cenedlaethol, cynnydd mewn costau byw a chostau gorbenion eraill, mae lleoliadau gofal plant yn ei chael yn anodd aros yn hyfyw. Ar hyn o bryd, mae gwahaniaeth rhwng gwahanol fodolau cyllido, er enghraifft, y Cynnig Gofal Plant, Cychwyn Hedfan a Hawl Cynnar (Cyfnod Sylfaen). Mae'r ffordd y telir elfen gofal plant y system credyd treth yn gwneud pethau'n waeth. Gwneir y taliadau i rieni, yn hytrach na'u bod yn mynd yn syth i'r lleoliadau gofal plant. Mae hyn yn golygu bod lleoliadau gofal plant yn dibynnu ar rieni i'w talu'n brydlon. Mae hyn yn golygu bod cynnal y lefelau presennol o wasanaeth yn llai fforddiadwy a chynaliadwy a'r unig ffordd y gall lleoliadau leihau'r effaith ariannol yw trosglwyddo'r gost i'r rhieni drwy eu ffioedd. Fodd bynnag, mae hyn yn anodd gan fod yn rhaid iddynt barhau i fod yn gystadleuol.

Mae'r dystiolaeth yn dweud...

mae angen adolygiad o gyfraddau gofal plant a ariennir gan y Llywodraeth a sut y cawn eu talu. Gallai hyn helpu i leihau straen ariannol ar leoliadau gofal plant sydd eisoes dan bwysau ariannol sylweddol a chefnogi eu cynaliadwyedd yn y dyfodol.

Bwrw ymlaen â strategaeth 10 mlynedd y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol

Beth yw'r problem?

Bu Gofal Cymdeithasol Cymru ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru yn gweithio mewn partneriaeth yn ystod 2018 a 2019 i adolygu a chasglu tystiolaeth am y ffordd orau o ddiwallu anghenion y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol dros y 10 mlynedd nesaf.

Bu'r sefydliadau'n gweithio gyda mwy na 1,000 o gydweithwyr ledled y wlad i ddatblygu strategaeth gweithlu gynhwysfawr ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol.

Uchelgais strategaeth y gweithlu yw gwneud yn siŵr, erbyn 2030, y bydd gennym y nifer cywir o bobl ymroddgar, brwdfrydig a gwerthfawr, yn cynnwys gwirfoddolwyr a gofalwyr, a fydd yn gallu cynnig iechyd a gofal cymdeithasol hyblyg a chwim ei ymateb a fydd yn diwallu anghenion pobl Cymru.

Ymhlith y materion a oedd bwysicaf i'r arweinwyr a'r ymarferwyr a helpodd i lunio'r strategaeth roedd:

- parch a thelerau ac amodau cydradd rhwng y gweithluoedd iechyd a gofal
- agwedd gydlynol tuag at:
 - cynllunio'r gweithlu
 - arferion i gefnogi gweithio di-dor
 - datblygu arweinwyr
- pwysigrwydd timau amlddisgyblaethol i ddiwallu anghenion pobl.

Mae'r dystiolaeth yn dweud...

mae angen strategaeth gweithlu wedi'i hariannu a'i chefnogi'n llawn, er mwyn sicrhau gwasanaeth di-dor wedi'i alinio'n dda rhwng iechyd a gofal cymdeithasol.

Gofal cymdeithasol yng Nghymru mewn rhifau

Cyfanswm a gyflogir mewn gofal cymdeithasol i oedolion a phlant:
90,500

Un o'r cyflogwyr mwyaf yng Nghymru

Cyfanswm a gofrestrwyd:
32,788

Nifer y gweithwyr a gofrestrwyd yn ôl grŵp:

Rheolwyr gofal cartref
931

Gweithwyr gofal cartref
19,962

Gweithwyr cymdeithasol
6,341

Rheolwyr gofal preswyl i blant
272

Gweithwyr gofal preswyl i blant
3,101

Myfyrwyr gwaith cymdeithasol
696

Rheolwyr cartrefi gofal i oedolion
1,322

Gweithwyr cartrefi gofal i oedolion
163*
(o amcangyfrif o 18,000 o weithwyr)

*rhaid cofrestru o 2022

Cyfrannu i'r economi: **£1.2bn y flwyddyn o gyfraniad uniongyrchol a £2.2bn drwyddi draw**

Gofal Cymdeithasol Cymru

Ni yw rheoleiddiwr y gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru. Golyga hynny ein bod yn cofrestru ymarferwyr, yn gosod safonau ymarfer ac yn sicrhau bod gweithwyr yn addas i ymarfer. Rydym hefyd yn gyfrifol am ddatblygu a gwella'r gweithlu, gwella gwasanaethau, gosod blaenoriaethau ar gyfer ymchwil a chasglu data. Cawn ein cyllido gan Lywodraeth Cymru

